# Cyngor Bro Morgannwg – Protocol Hysbysebu a Noddi

## 1. Diben y Ddogfen

1.1 Er mwyn diogelu enw da Cyngor Bro Morgannwg, ei aelodau, ei bartneriaid a'i swyddogion a sicrhau diogelwch i ddefnyddwyr gwasanaethau, mae angen cyfres o ganllawiau ar gyfer rheoli hysbysebion a gweithgareddau noddi gan y Cyngor.

1.2 Mae protocol Hysbysebu a Noddi Bro Morgannwg yn nodi'r telerau y mae angen i'r Cyngor gydymffurfio â nhw wrth geisio a derbyn gweithgareddau hysbysebu a noddi.

1.3 Mae gan y Cyngor ymrwymiad i geisio a datblygu cyfleoedd hysbysebu a noddi masnachol sy'n cefnogi'r gwaith strategol o gyflawni amcanion corfforaethol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

1.4 Nod y protocol hwn yw cynghori aelodau'r Cyngor, partneriaid, swyddogion a darpar bartneriaid hysbysebu a noddi ar yr hyn sy'n ddulliau derbyniol o hysbysebu a noddi i'r Cyngor, a'r hyn nad ydyw. Mae'r protocol yn ymwneud â chyfleoedd hysbysebu a noddi cyfredol a chyfleoedd hysbysebu a noddi arfaethedig sy'n gysylltiedig ag adeiladau, asedau ac adnoddau ffisegol y Cyngor, a chynhyrchion a gwasanaethau newydd a chyfredol, gan gynnwys digwyddiadau.

## 2. Diffiniadau

2.1 Mae hysbysebu yn gytundeb rhwng y Cyngor a'r hysbysebwr, lle mae'r Cyngor yn elwa (ar ffurf arian, adnoddau neu wasanaethau) gan yr hysbysebwr yn gyfnewid am gyhoeddusrwydd ar ffurf hysbyseb drwy un neu fwy o adeiladau, asedau, adnoddau ffisegol, cynhyrchion neu wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys digwyddiadau.

2.2 Mae noddi'n berthynas o fudd i'r ddwy ochr rhwng y Cyngor a'r noddwr lle mae'r Cyngor yn cael buddion (ar ffurf arian, adnoddau neu wasanaethau) gan y noddwr yn gyfnewid am gyfres o hawliau a chysylltiad ag un neu fwy o adeiladau, asedau, adnoddau ffisegol, cynhyrchion neu wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys digwyddiadau.

## 3. Egwyddorion Arweiniol

### 3.1 Egwyddorion Hysbysebu

Yr egwyddorion cyffredinol y dylid eu dilyn wrth osod hysbyseb trwy'r Cyngor yw:

- Rhaid i hysbysebwyr sicrhau bod pob hysbyseb yn cydymffurfio â'r holl reolau cyfreithiol, rheoliadau neu godau ymarfer perthnasol. Yn benodol, rhaid i'r hysbysebion gadw at y codau ymddygiad a bennwyd gan yr

Atodiad A

Awdurdod Safonau Hysbysebu –

mewn gair ac ysbryd.
- Rhaid sicrhau nad yw’r hysbysebion yn cynnwys unrhyw beth sy'n ddifenwol, yn anweddus neu’n anghyfreithlon mewn unrhyw ffordd neu sy'n torri hawlfraint neu unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill neu hawliau eraill sy'n perthyn i drydydd parti neu a fyddai, pe baent yn cael eu cyhoeddi neu eu harddangos, yn gyfystyr â thorri contract neu hyder neu y mae eu cyhoeddi neu eu harddangos am unrhyw reswm yn anghyfreithlon.
- Rhaid i bob hysbyseb fod yn gyfreithlon, yn gywir, yn weddus, yn onest ac yn wir ac wedi'i greu gydag ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol.
- Bydd pob hysbyseb wedi'i nodi'n glir ei fod yn cydymffurfio â’r telerau hyn, a dylid nodi nad yw'r Cyngor yn cymeradwyo unrhyw gynnyrch na gwasanaethau a hysbysebir trwy unrhyw un o'i sianeli. Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw hysbyseb a allai amharu ar ei frand na’i hunaniaeth. Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig y person awdurdodedig y gall hysbysebion ddefnyddio enw neu frand y Cyngor.
- Yr Hysbysebwr fydd yn gyfrifol am atebolrwydd cyfreithiol am gynnwys unrhyw hysbyseb a osodir yn unol â'r Protocol hwn a bydd y Cyngor yn cael ei indemnio gan yr Hysbysebwr mewn perthynas ag unrhyw hawliadau.
- Rhaid i'r holl drefniadau hysbysebu a noddi fod yn unol â'r agenda polisi Hysbysebu Iachach a ddatblygwyd gan Fwrdd Cynyddu Gwaith Atal Caerdydd a'r Fro.

3.2 <u>Egwyddorion Noddi</u>

Yr egwyddorion cyffredinol y dylid eu dilyn wrth ymrwymo i drefniant noddi gyda'r Cyngor yw:

- Rhaid i'r incwm noddi fod o werth cymharol isel i beidio â dylanwadu ar gysylltiadau’r Cyngor â'r noddwr hwnnw ar hyn o bryd neu yn y dyfodol ac mae gan y noddwr y gyllideb flynyddol i ddarparu'r nawdd hwn.
- Ni chaiff unrhyw noddwr ei ffafrio uwchlaw un arall, ac eithrio pan fo dosbarthiadau diffiniedig o noddwyr.
- Rhaid i'r holl bartïon perthnasol ymrwymo i delerau cyhoeddusrwydd er mwyn sicrhau cywirdeb.
- Ni fydd y Cyngor yn dangos hysbysebion nac yn gweithio gyda sefydliadau lle mae cynnyrch neu wasanaethau'r cwmni yn ymwneud â:
    - Gwasanaethau gamblo (ac eithrio loterïau a gynhelir at ddibenion elusennol).
    - Gwasanaethau rhywiol (ac eithrio cwnsela neu wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd lle y cafwyd caniatâd ysgrifenedig).
    - Gwasanaethau pornograffig.
    - Crefydd.
    - Gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
    - Gwleidyddiaeth.
    - Proses gaffael y mae’r hysbysebwr wrthi’n ei

chynnal (neu y disgwylir iddo ei chynnal yn fuan) gyda'r Cyngor.

  - Sefydliadau ariannol, manwerthwyr ac unrhyw fenthycwyr eraill sydd â chyfraddau llog cosbol ar gyfer benthyca tymor byr.
- Ni fydd y Cyngor yn arddangos hysbysebion ar gyfer bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr.

3.3 Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysol, ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod hysbysebu neu noddi ar y sail ei fod, ym marn y Cyngor, yn amhriodol, neu ei fod yn gwrthdaro â gwasanaethau a ddarperir eisoes gan y sefydliad neu'n gallu dwyn anfri ar y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu hysbysebion neu dynnu'n ôl o drefniadau noddi heb gyfeirio at y cwmni partner os caiff enw da'r Cyngor ei ddwyn i anfri o ganlyniad i weithredoedd y sefydliad hysbysebu/noddi.

## 4. Canllawiau Caffael

- Ni fydd unrhyw drefniant hysbysebu neu noddi yn dylanwadu ar unrhyw benderfyniad (gan gynnwys dyfarnu contractau) y Cyngor na'i swyddogion na'i aelodau.
- Ni cheisir unrhyw ofyniad am hysbysebu na noddi yn ystod unrhyw ymarferion caffael yn y dyfodol.
- Rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio am unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag unrhyw ddylanwad canfyddedig ar y broses gwneud penderfyniadau.

4.1 Yn ogystal â'r uchod, dylai hysbysebwyr a noddwyr gadarnhau eu bod yn bodloni safon y Cyngor o ran polisïau moesegol a chydraddoldeb.

## 5. Gweithredu'r protocol hwn

5.1 Yn unol â'r protocol hwn, cynigir cyfle i ddarpar hysbysebwyr a noddwyr sy'n dymuno ymrwymo i gytundeb â'r Cyngor er mwyn hyrwyddo eu brand trwy hysbysebu neu noddi trwy sianel neu drefniant 'pecyn' unigol sy'n cwmpasu amrywiaeth o asedau, cynhyrchion a gwasanaethau'r Cyngor i'w gydlynu gan Dîm Cyfathrebu corfforaethol y Cyngor, ar y cyd â'r gwasanaeth(au) perthnasol.

5.2 Ceir canllawiau ychwanegol ar benderfynu pa hysbysebion bwyd a diod di-alcohol a ystyrir yn dderbyniol yng Nghanllawiau Cymeradwyo Hysbysebion Bwyd a Diod Cyngor Bro Morgannwg.

## 6. Rolau a Chyfrifoldebau

6.1 Mae'r Rheolwr Gweithredol - Cyfathrebu Corfforaethol yn gyfrifol am reoli'r protocol hwn o ddydd i ddydd a'i weithredu mewn perthynas ag ymgyrchoedd hysbysebu a threfniadau noddi a gynigir i'r Cyngor neu a geisir gan y Cyngor.

6.2 Yn absenoldeb y Rheolwr Gweithredol - Cyfathrebu Corfforaethol bydd y cyfrifoldeb a amlinellir uchod yn cael ei gyflawni gan ei reolwr llinell.

6.3 Os na fydd unrhyw ymgyrch hysbysebu neu noddi yn dilyn yn glir y canllawiau a geir yn y protocol hwn, ymgynghorir â’r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i ddod i benderfyniad, gan gydgysylltu fel sy'n ofynnol â Chyfarwyddwr y gwasanaeth perthnasol ac Arweinydd y Cyngor.

6.4 Dylai’r holl gyfleoedd noddi a hysbysebu a chontractau dilynol gael eu hyrwyddo, eu cytuno a'u dyfarnu gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, gan gydgysylltu fel sy'n ofynnol ag Arweinydd, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a Swyddog Adran 151 y Cyngor.

6.5 Mae’n rhaid cyfeirio pob Cytundeb Hysbysebu a Noddi at y Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol i'w hadolygu cyn cytuno arno os yw'r gwerth yn fwy na £1,000 neu os oes unrhyw ymholiadau ynglŷn â phriodoldeb posibl y cwmni noddi/hysbysebu.

6.6 Os ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny, adroddir i'r Cabinet am gyfleoedd penodol.

6.7 Argymhellir bod yr holl bartneriaid hysbysebu a noddwyr posibl yn cael eu cyfeirio at y protocol hwn.

## 7. Monitro ac Adolygu

7.1 Caiff y protocol hwn ei adolygu’n flynyddol. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadrodd i'r Cabinet i'w cymeradwyo.